# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Blaina. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 26 Chwefror 2019

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mai 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-83876-406-7



(h) Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........................................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym........................................................................... 7

Ansawdd profiad y claf .............................................................................8

Darparu gofal diogel ac effeithiol ...........................................................12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ...................................................18

4. Beth nesaf? ............................................................................................... 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.............................................. 22

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .23

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol..................................................24

Atodiad C – Cynllun gwella................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

| | |
|---|---|
| Rhoi sicrwydd: | Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal |
| Hybu gwelliant: | Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da |
| Dylanwadu ar bolisi a safonau: | Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Blaina, Blaina, Abertyleri, NP12 3AT sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar 26 Chwefror 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol. Cysgodwyd yr arolygiad gan ail arolygydd o AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Blaina yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân a chyfeillgar.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gryf iawn ac ethig gwaith tîm da. Roedd y staff yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi.

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel.

Roedd rhai meysydd i'w gwella o ran yr angen i gynnal archwiliadau clinigol ychwanegol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod y darparwyr cofrestredig a rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn. Roedd rheolwr y practis yn cynnig gwydnwch ychwanegol i'r practis fel nyrs ddeintyddol gofrestredig.
- Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd llawer ohonynt wedi bod gyda'r practis hwn ers sawl blwyddyn.
- Roedd y practis yn gofyn am adborth gan gleifion o ran sut y gellid gwella gwasanaethau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd eu cynnal yn unol â WTHM 01-05
- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig yn y practis.
- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff amrywiaeth lawn o archwiliadau clinigol eu cynnal, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, gwrthfiotigau a chofnodion clinigol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Blaina yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Blaina, Abertyleri. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd a phedair nyrs ddeintyddol gofrestredig, y mae un ohonynt yn rheolwr y practis. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Deintyddfa Blaina yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w chleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i gleifion i'w helpu i wneud dewisiadau effeithiol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 39 ohonynt. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol: *"Mae tîm y dderbynfa bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn barod i helpu. Maent yn ased i'r practis"*

*"Staff cwrtais iawn a phleserus - Mae bob amser yn braf cael gweld y tîm er mai'r deintydd ydyw"*

*"Credaf fod y staff bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymorth"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Ni ellir ei wella, mae'n effeithlon iawn"*

*"Agor yn hwyrach efallai, gan fy mod yn gweithio oriau hir"*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi egluro wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau preifat yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hyn yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i gynnal eu hiechyd a hylendid y geg eu hunain.

## Gofal gydag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn mynd â chlaf naill ai i ddeintyddfa wag neu i'r swyddfa pe bai angen cael sgwrs breifat ag ef. Gwelsom fod gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisïau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael i'r cleifion. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

### Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion, ond un, eu bod bob amser yn cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion ar gais, a'i bod yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y practis. Gwelsom bosteri a oedd yn arddangos costau triniaethau preifat, yn ogystal â nifer o daflenni am driniaethau deintyddol a phroblemau, er mwyn helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd eu ceg a'u hopsiynau triniaeth. Roedd ffolder hefyd ar gael yn yr ystafell aros a oedd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am iechyd cyffredinol ac iechyd y geg, gan gynnwys bwyta'n iach.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid oedd trefniadau ar waith gan y practis i alluogi'r staff i gyflwyno'r '[1]Cynnig Rhagweithiol' i'r cleifion. Unionwyd y sefyllfa hon yn ystod yr arolygiad.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael eu rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n "hawdd iawn" cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddo aildrefnu pe byddai angen iddo wneud hynny.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, roedd yr opsiynau triniaeth wedi cael eu cofnodi ar y cofnodion a welsom. Dangosodd hyn fod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

### Hawliau pobl

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted

Nid oedd y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn gan fod y deintyddfeydd a'r ardal aros ar lawr cyntaf adeilad amlddefnydd. Dywedodd y practis wrthym pe byddai claf â gofynion symudedd ychwanegol yn cysylltu, y byddai'n ei helpu i drefnu apwyntiad mewn deintyddfa leol arall oedd â threfniadau mynediad priodol.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd y practis yn croesawu adborth gan gleifion. Roedd blwch yn y dderbynfa â hysbysiad yn gofyn i'r cleifion gynnig syniadau o ran sut y gellid gwella'r practis. Fodd bynnag, anaml yr oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd y cofnodlyfr cwynion yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod cyfoes o achosion. Fodd bynnag, prin iawn oedd y cwynion a gafwyd gan y practis.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cleifion ym mhractis deintyddol Blaina yn cael gofal diogel ac effeithiol

Gwelsom fod yr amgylchedd, gan gynnwys yr ardaloedd clinigol, yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda iawn.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion clinigol cleifion yn cael eu cynnal yn unol â'r safon broffesiynol y cytunwyd arni

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai mewn cyflwr da, gyda maes parcio mawr i'r cleifion. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn daclus ac yn fawr. Roedd yr ardal aros yn gyfforddus ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod nifer o bolisïau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch er nad oedd unrhyw bolisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisïau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ar-lein. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod polisïau newydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac y byddai'r staff wedyn yn cytuno iddynt ac yn eu llofnodi. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad, a'u bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio. Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi tân. Hefyd, roedd gan y practis aelodau o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio Polisi Wrth Gefn ar gyfer Argyfwng.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd y gwaith o lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn cael ei wneud mewn ystafell ddihalogi arbenigol. Gwelsom dystiolaeth fod y protocol ar gyfer archwilio cyfarpar sterileiddio ar gael ac yn gyfredol, a bod polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar waith i'r staff, gan olygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau.

Roedd archwiliadau dihalogi dyddiol yn cael eu cynnal ac roedd cofnodion cynhwysfawr o brofion ar gael ar gyfer yr awtoclaf[2]. Roedd yr archwiliadau gwasanaethu a chynnal a chadw ar gyfer yr awtoclaf yn gyfredol.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen lanhau ddyddiol i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt

[2]Defnyddir awtoclafau at ddibenion meddygol er mwyn sterileiddio cyfarpar.

yn cael eu cadw'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[3].

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi, ond nid oedd prif nyrs ddynodedig a oedd yn gyfrifol am ddihalogi yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd eu cynnal yn unol â WTHM 01-05

Dylai'r darparwr cofrestredig nodi arweinydd dihalogi ar gyfer y practis.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys gweithdrefn dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Nid oedd gan y practis swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Roedd meddygfa a chanolfan feddygol hefyd yn rhannu'r adeilad. Roedd y practis yn dibynnu arnynt am gymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis unrhyw reolaeth dros sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf bob amser ar gael pe byddai

[3] www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/**WHTM 01-05** Revision 1.pdf

ei angen. Mae angen i'r practis sicrhau bod gofal cymorth cyntaf ar gael i'r staff a'r cleifion os byddant yn cael damwain neu anaf.

Roedd gan y practis gyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[4]. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn ardal yn agor i'r dderbynfa, ac roedd arwyddion clir iawn ar yr eitemau unigol o gyfarpar. Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno ar y polisïau a'r gweithdrefnau hynny.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig yn y practis.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hybu ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd swyddogion diogelu arweiniol y practis wedi cwblhau hyfforddiant lefel uwch ar ddiogelu er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

### Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

---

[4] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a helpu i achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

Roedd y cyfarpar radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn y deintyddfeydd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwelsom fod y rheolau lleol[5] wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd, ond roedd y wybodaeth arnynt yn anghywir gan fod enwau'r Goruchwylydd Diogelu rhag Ymbelydredd a'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd[6] yn y drefn anghywir. Gofynnwyd i'r practis ymdrin â hyn.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[7] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)[8] 2000, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau radiograffeg rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol cywir wedi'u harddangos ym mhob deintyddfa.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

---

[5] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

[6] http://forum.iosh.co.uk/posts/t128174-Radiation-Protectin-Advisor-or-Radiation-Protection-Supervisor

[7] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[8] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal nifer o archwiliadau clinigol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cynnal ar gyfer rhoi'r gorau i smygu, rhagnodi gwrthfiotigau na chofnodion clinigol.

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, rhoi diagnosis a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff amrywiaeth lawn o archwiliadau clinigol eu cynnal, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, gwrthfiotigau a chofnodion clinigol.

### Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion. Gwelsom fod y cofnodion o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod bylchau yn y cofnodion mewn nifer o achosion, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Tystiolaeth o gofnodi cydsyniad a roddwyd ar lafar
- Tystiolaeth o brofion sgrinio ar gyfer canser
- Tystiolaeth o ddefnyddio fflworid
- Cofnodi opsiynau o ran cynlluniau triniaeth
- Iechyd y geg / Cyngor ar ddeiet
- Hanes Meddygol

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau clinigol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar ofal cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn gyffredinol, gwelsom fod strwythur rheoli cadarn ar waith yn y practis, gyda rheolwr practis penodedig yn cael cefnogaeth gan dîm proffesiynol agos.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae practis deintyddol Blaina yn ddarparwr deintyddol annibynnol. Un o'r prif ddeintyddion sy'n cyflawni rôl yr unigolyn cyfrifol.

Mae rheolwr y practis wedi gwneud cais i AGIC yn ddiweddar i ddod yn rheolwr cofrestredig. Mae cyfrifoldeb arno i reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r practis wedi sefydlu ers cryn amser ac, ar y cyfan, roedd y staff wedi bod yn gweithio yno ers amser hir.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau mewn perthynas â hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwelsom dystiolaeth fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel, gan gynnwys cynnal gwiriadau sy'n briodol i'r gwaith y bydd y staff yn ei wneud.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Blaina

## Dyddiad arolygu: 26 Chwefror 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Teitl swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Blaina

## Dyddiad arolygu: 26 Chwefror 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd | | | |
| | 4.1 Gofal ag Urddas | | | |
| | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion | | | |
| | 3.2 Cyfathrebu'n | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | effeithiol | | | |
| | 5.1 Mynediad amserol | | | |
| | 6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth | | | |
| | 6.2 Hawliau pobl | | | |
| | 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio Polisi Wrth Gefn ar gyfer Argyfwng. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; | Mae Polisi Wrth Gefn ar gyfer Argyfwng wedi cael ei gwblhau, ei ddarllen a'i lofnodi gan bob aelod o'r staff. Mae'r polisi yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae'n rhaid i ni ymateb i argyfyngau os byddant yn codi. | Kirk Partridge/ Nighat Malik | cwblhawyd |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd eu cynnal | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a | Mae Archwiliadau Rheoli Heintiau Rheolaidd wedi cael eu cynnal yn aml | Kirk Partridge / Nighat Malik | cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| yn unol â WTHM 01-05<br>Rhaid i'r darparwr cofrestredig nodi arweinydd dihalogi ar gyfer y practis. | Dihalogi, | dros y blynyddoedd yn y practis yn dilyn cyngor llyfrynnau cyngor a phecynnau cymorth WHTM 01-05.<br>Miss Claire Morgan a Mrs Leanne Pagett yw'r nyrsys dihalogi arweiniol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r nyrsys eraill yn y practis a rheolwr y practis | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig yn y practis. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau; | Rydym wrthi'n chwilio am gyrsiau cymorth cyntaf ar gyfer ein staff i'w cwblhau. | Kirk Partridge/<br>Nighat Malik | Rhwng nawr a mis Medi |
| | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed | | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol cywir wedi'u harddangos ym mhob deintyddfa. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; | O ganlyniad i gymysgu'r enwau ar reolau lleol pelydr-x a amlygwyd gan y tîm arolygu, mae'r rheolau lleol wedi cael eu diweddaru ac maent bellach yn cynnwys enwau a rhifau cyswllt cywir Ymgynghorwyr Ymbelydredd Dental | Kirk Partridge/<br>Nighat Malik | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Buying Group.<br>Byddwn yn cadarnhau gyda DBG o bryd i'w gilydd nad oes unrhyw newidiadau i bersonél a rhifau cyswllt | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff amrywiaeth lawn o archwiliadau clinigol eu cynnal, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, gwrthfiotigau a chofnodion clinigol | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Mae amrywiaeth lawn yr archwiliadau clinigol yn flaenoriaeth i'r staff yn y practis a chânt eu cwblhau cyn gynted â phosibl | Kirk Partridge /<br>Nighat Malik | 6 mis / blwyddyn |
| | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi | | | |
| | 3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu | | | |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau clinigol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar ofal cleifion. | 3.5 Cadw cofnodion; | Rydym wedi trafod yn fanwl iawn a byddwn yn ymdrechu i gymryd y camau priodol er mwyn sicrhau y bydd hwn yn bodloni'r safon ddisgwyliedig | Kirk Partridge/ Nighat Malik | cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | | | |
| | 7.1 Y Gweithlu; | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Dr Kirk Partridge a Dr Nighat Malik**

**Swydd: Perchnogion y Practis**

**Dyddiad: 21 Mai 2019**